

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Taflen Ffeithiau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cytundebau Rheoli Tir a Chynlluniau Arbrolfol



Cyflwyniad

Mae'r Deddf yn rhoi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru greu cytundebau rheoli tir ac i dreialu technegau a dulliau newydd er mwyn helpu i reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd mwy cynaliadwy.

Cytundebau Rheoli Tir

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau newydd i Cyfoeth Naturiol Cymru greu cytundebau gwirfoddol gyda pherchnogion tir neu bersonau eraill ar y modd y bydd eu tir yn cael ei reoli.

Er enghraifft, o dan y cytundebau hyn mae'n bosibl y bydd rheolwr tir yn cytuno i:

- Amddiffyn a chadw cynefinoedd a phlanhigion mewn ardal ee drwy gynnal perthi;
- Rheoli tir mewn modd a fydd yn helpu i liniaru llifogydd drwy blannu coed, eu cynnal neu beidio a'u torri mewn ardal benodol;
- Caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru reoli gweithgareddau (ee cynaeafu coetir) ar y tir.

I sicrhau bod y tir yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy yn y tymor hir, gall Cyfoeth Naturiol Cymru rwyngu'r rhai fydd yn berchen ar y tir yn y dyfodol i delerau cytundeb drwy ei gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir. Golyga hyn y bydd telerau'r cytundeb yn parhau hyd yn oed pan fydd y tir yn newid dwylo. Er enghraifft, gallai hyn roi lefel o sicrwydd y bydd yr asedau naturiol sy'n amddiffyn rhag llifogydd, sydd ar ardal o dir a'i gysiau dŵr cysylltiedig, yn parhau i gael eu cynnal i safon benodol, hyd yn oed os bydd y tir yn cael ei werthu neu os bydd tenant newydd wrth y llyw.

Cynlluniau Arbrofol

Mae cynllun arbrofol yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru dreialu dulliau newydd o gynnal neu gyflawni ei swyddogaethau ac o reoli adnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy.

Er enghraifft, mae'r Ddeddf yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru dreialu dulliau newydd a fydd o gymorth i:

- Ddatblygu technegau rheoli newydd i wella cryfder yr ecosystemau;
- Asesu atebion wedi'u seilio ar natur fel dull o fynd i'r afael â phroblemau penodol, er enghraifft, ceisiadau ynghylch defnyddio mawnogydd i leddfu llifogydd;
- Datblygu'r arfer gorau ar gyfer mynd ati i wneud gweithgaredd penodol.

Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu atal darpariaethau penodol mewn deddfwriaeth amgylcheddol am gyfnod cyfyngedig, er mwyn galluogi cynllun arbrofol i gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Er enghraifft, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru nodi cynllun i dreialu dull newydd o ddatblygu safonau cyffredinol yn lle gofynion statudol. Gellid atal y gofynion o dan amgylchiadau cyfyngedig i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i dreialu'r safonau newydd.

Yr amserlen

Dim ond pan fo cais wedi'i gyflwyno gan Cyfoeth Naturiol Cymru y gellir gwneud rheoliadau i atal darpariaeth(au) mewn deddfwriaeth at ddiben cyflwyno cynllun arbrofol. Yna, rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni y bydd y broses o atal dros dro yn cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Felly bydd y pŵer ond yn cael ei ddefnyddio os a phan bydd cais yn cael ei gyflwyno.

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016 gan roi pwerau i Cyfoeth Naturiol lunio cytundebau rheoli tir a chynnal cynlluniau arbrofol sy'n cael effaith ddau fis yn ddiweddaraf.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf ei hun ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd

Gallwch hefyd danystrifio i gael ein e-fwletin misol drwy anfon e-bost at:

NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk